

**Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

**Gogledd Cymru**

**Polisi Cyfryngau Digidol a Chymdeithasol**

## Polisiâu a Gweithdrefnau / Policies and Procedures

### Crynodeb o'r Polisi a'r Weithdrefn

Mae'r polisi hwn yn egluro sut bydd staff Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) Gogledd Cymru yn ymgysylltu â'r gymuned ar-lein drwy ddefnyddio cyfryngau digidol a chymdeithasol ar ran y Comisiynydd.

Mabwysiadwyd y polisi hwn gan SCHTh Gogledd Cymru. Mae'n berthnasol i staff sy'n cael eu cyflogi gan SCHTh dan gyfarwyddyd y Prif Weithredwr ac yn cynnwys y Prif Weithredwr.

<b>Teitl:</b>	Polisi Cyfryngau Digidol a Chymdeithasol
<b>Perchennog y Polisi:</b>	Prif Weithredwr
<b>Awdur y Polisi:</b>	Swyddog Gweithredol
<b>Rhif y Polisi:</b>	8
<b>Dyddiad Cychwyn:</b>	16.03.2017
<b>Dyddiad Adolygu:</b>	16.03.2021
<b>Fersiwn:</b>	V3.0

### Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Hoffi a dilyn .....	2
3.	Rhannu ac ail-drydar .....	2
4.	Rhwystro a Dad-ddilyn .....	3
5.	Ymateb ac ateb.....	3
6.	Safonau .....	4
7.	Sylwadau a chwynion.....	4
8.	Riportio Trosedd .....	5
9.	Enllib .....	5
10.	Materion dan ystyriaeth gyfreithiol .....	5
11.	Rhyddid Gwybodaeth.....	6
12.	Y cyfnod cyn etholiad neu 'purdah' .....	6

## Polisiâu a Gweithdrefnau / Policies and Procedures

### 1. Cyflwyniad

- 1.1. Bydd SCHTh yn defnyddio cyfryngau digidol a chymdeithasol ar-lein i gynorthwyo'r Comisiynydd i gyfathrebu gyda'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill. Fe ddefnyddir cyfryngau digidol a chymdeithasol ar-lein fel ffordd ychwanegol o gyflawni dyletswydd gyfreithiol y Comisiynydd i hysbysu ac ymgysylltu â'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill.
- 1.2. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r canllawiau ynghylch sut bydd staff Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) Gogledd Cymru yn ymgysylltu â'r gymuned ar-lein drwy ddefnyddio cyfryngau digidol a chymdeithasol ar ran y Comisiynydd. Fe'i cyhoeddir ar wefan y Comisiynydd, [www.northwales-pcc.gov.uk](http://www.northwales-pcc.gov.uk).
- 1.3. Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Gogledd Cymru, drwy Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) yn bwriadu defnyddio cyfryngau digidol a chymdeithasol yn effeithiol er mwyn datblygu ffyrdd newydd o ymgysylltu, ymwneud â chymunedau'n well a'i gwneud hi'n haws i unigolion gysylltu â ni a rhoi adborth.

### 2. Hoffi a dilyn

- 2.1. Os ydych yn 'dilyn' neu'n 'hoffi' cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y CHTh, ni fydd SCHTh yn eich dilyn chi'n ôl yn awtomatig. Y rheswm dros hyn ydi er mwyn cadw niferoedd dilynwyr ar lefel hylaw, er mwyn osgoi cyfrifon sbam ac mae hefyd yn cyfyngu'r defnydd a wneir o negeseuon uniongyrchol er mwyn cadw trafodaethau yn agored. Ni ddylai'r ffaith ein bod yn 'dilyn' cyfrif olygu bod y CHTh neu ei swyddfa yn ardystio'r cyfrif. Ceidw SCHTh yr hawl i 'ddad-ddilyn' cyfrifon ar unrhyw adeg. Weithiau, byddwn hefyd yn ceisio cefnogi ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol sy'n cyd-fynd â materion o bwys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Hefyd weithiau bydd angen i ni hoffi neu ddilyn cyfrif er mwyn cymryd rhan mewn sgysiau.

### 3. Rhannu ac ail-drydar

- 3.1. Rydym yn ceisio rhannu neu ail-drydar gwybodaeth yr ydym yn meddwl bydd o ddiddordeb neu o ddefnydd i'n dilynwyr, fodd bynnag plîs peidiwch â digio os nad ydym yn ail-drydar rhywbeth yr ydych eisiau i ni ei wneud. Fel sefydliad dibynadwy, gallai'r ffaith ein bod yn rhannu gwybodaeth gael ei weld fel ein bod yn cefnogi

## Polisiâu a Gweithdrefnau / Policies and Procedures

safbwynt, unigolyn neu sefydliad penodol, ac mae'n bwysig ein bod yn aros yn ddiduedd ac yn amddiffyn enw da'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

### 4. Rhwystro a Dad-ddilyn

- 4.1. Ceidw SCHTh yr hawl i ddistewi, rhwystro neu dad-ddilyn cyfranogwyr neu ddileu neu guddio sylwadau sydd wedi cael eu postio, pan fydd gwneud hynny yn unol â'r polisi hwn neu am unrhyw reswm da arall.
- 4.2. Os ydym yn rhwystro eich cyfrif, mae'n debyg y bydd hyn oherwydd eich bod wedi ein dilyn neu ein hoffi er mwyn hyrwyddo cynnyrch neu wasanaeth, neu eich bod wedi torri rheolau safle cymdeithasol penodol. Os ydym am ryw reswm yn eich dad-ddilyn, efallai y bydd oherwydd ein bod yn rhoi trefn ar bethau neu yn syml yn torri niferoedd i lawr. Os ydych yn gweld ein bod wedi'ch dad-ddilyn, plîs peidiwch â chymryd hyn yn bersonol.

### 5. Ymateb ac ateb

- 5.1. Ar hyn o bryd dim ond rhwng 10am-4pm, dydd Llun i ddydd Gwener y mae ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn cael eu monitro, ac ni fyddent yn cael eu monitro dros wyliau cyhoeddus na gwyliau'r banc.
- 5.2. Nid yw cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd na'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu monitro gan SCHTh gan eu bod yn cael eu rheoli'n bersonol.
- 5.3. Mae'n hawdd methu cofnod mewn traffig cyfryngau cymdeithasol prysur, fodd bynnag rydym yn ceisio ymateb i gymaint o atebion neu sylwadau ag y gallwn. Efallai y bydd rhaid i ni weithiau wneud ychydig o waith ymchwil neu ymholiadau er mwyn canfod rhagor o wybodaeth cyn ymateb. Golyga hyn y bydd weithiau yn cymryd ychydig o amser cyn y gallwn ddod yn ôl atoch. Fel rheol, byddwn yn ceisio ymateb cyn gynted â phosib, naill ai drwy'r cyfrwng cymdeithasol neu drwy e-bost personol os byddai hynny'n fwy priodol. Os ydy'ch ymholiad/sylwadau yn ddifrifol, neu'n ymwneud â manylion personol, cysylltwch â SCHTh drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt canlynol.

## Polisiâu a Gweithdrefnau / Policies and Procedures

5.4. Noder os gwelwch yn dda, oherwydd natur sensitif plismona ac ymgyrchoedd SCHTh, efallai na fydd yn bosib i ni ateb bob cwestiwn. Fodd bynnag, mae SCHTh yn croesawu adborth a syniadau gan ein holl ddilynwyr.

### 6. Safonau

6.1. Mae gan y rhan fwyaf o gymunedau ar-lein eu rheolau a'u canllawiau eu hunain, a byddwn wastad yn eu dilyn. Ble bynnag y bo modd, byddwn yn dibynnu ar y mesurau diogelu ac ymyrryd sydd gan y safle rhwydweithio cymdeithasol eisoes mewn lle (e.e. yn erbyn cynnwys anghyfreithlon, niweidiol neu sarhaus), er enghraifft drwy edwino'r sylwadau neu eu hysbysu o unrhyw doriad i delerau ac amodau'r safle. Mae gennym hefyd ein rheolau ein hunain.

6.2. Rydym yn cadw'r hawl i ddileu unrhyw gyfraniadau neu i rwystro defnyddwyr sy'n torri rheolau'r gymuned berthnasol, neu unrhyw un o'n canllawiau.

#### **Pŵis peidiwch â:**

- bod yn anfoesgar, atgas
- postio negeseuon sy'n anghyfreithlon, enllibus, poenus, difriol, sarhaus, bygythiol, niweidiol, brwnt, anghysegregatedig, rhywiol neu hiliol
- rhegi
- postio cynnwys a gopiwyd o rywle arall nad oes gennych hawlfraint ar ei gyfer
- postio'r un neges, neu negeseuon tebyg, fwy nag unwaith (gelwir hyn hefyd yn "sbamio")
- cyhoeddi eich manylion personol, neu rai rhywun arall, megis manylion cyswllt
- hysbysebu cynnyrch neu wasanaethau
- dynwared rhywun arall
- postio unrhyw sylwadau o ran unrhyw bleidiau gwleidyddol
- trafod unrhyw achosion neu ymchwiliadau cyfredol

### 7. Sylwadau a chwynion

7.1. Mae yna adran berthnasol ar y wefan i chi adael sylwadau, positif neu fel arall. Os hoffech wneud cwyn, gofynnir i chi ddefnyddio'r broses gywir a chofiwch na all y

## Polisïau a Gweithdrefnau / Policies and Procedures

Comisiynydd Heddlu a Throsedd ymchwilio i gwynion am swyddogion heddlu neu ddigwyddiadau. Bydd angen i chi ddefnyddio gwefan Heddlu Gogledd Cymru i riportio'r rhain - [www.heddlu-gogledd-cymru.police.uk](http://www.heddlu-gogledd-cymru.police.uk).

### 8. Riportio Trosedd

- 8.1. Peidiwch â defnyddio cyfrif cyfryngau cymdeithasol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i riportio trosedd. Gallwch riportio trosedd drwy gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru.
- 8.2. Noder bod angen galw 999 mewn argyfwng, a galw 101 ar gyfer unrhywbeth sydd ddim ar frys.
- 8.3. Nid SCHTh yw'r swyddfa briodol ar gyfer riportio trosedd neu anrhefn, trosedd neu anrhefn tebygol neu unrhyw bryder sy'n gysylltiedig â diogelwch person neu eiddo.
- 8.4. Pe byddai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd neu staff y SCHTh yn derbyn unrhyw wybodaeth ddylai gael ei riportio i'r Heddlu, byddent yn gofyn i'r awdur yrru eu gohebiaeth ymlaen at Heddlu Gogledd Cymru neu os yw'r mater yn un difrifol bydd yr ohebiaeth yn cael ei yrru ymlaen yn syth at Heddlu Gogledd Cymru gan SCHTh.
- 8.5. Nodwch os gwelwch yn dda os yw'r mater yn cael ei ystyried yn un difrifol mae gan SCHTh ddyletswydd gofal i riportio'r digwyddiadau heb ganiatâd yr awdur.

### 9. Enllib

- 9.1. Peidiwch â gwneud datganiadau enllibus, h.y. datganiad fyddai'n bychanu enw da unigolyn neu sefydliad yn llygaid unigolyn rhesymol. Byddwn yn dileu unrhyw ddatganiad fyddai'n gallu cael ei bortreadu fel un enllibus.

### 10. Materion dan ystyriaeth gyfreithiol

- 10.1. Bydd unrhyw wybodaeth sy'n cyfeirio at ymholiad neu fater cyfredol y mae'r heddlu neu'r system cyfiawnder troseddol yn ymchwilio iddo yn cael ei dileu. Ni allwn

## Polisïau a Gweithdrefnau / Policies and Procedures

gyhoeddi unrhyw wybodaeth fydd o bosib angen ei dadlennu yn y llys, felly plis peidiwch â phostio unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â materion y mae'r heddlu yn ymchwilio iddynt neu unrhyw fath o achos cyfreithiol.

### 11. Rhyddid Gwybodaeth

11.1. Mae yna adran berthnasol ar y wefan i chi gyflwyno ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (RhG). Byddwn yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 wrth ymdrin â'r ceisiadau hyn. Os ydych yn cyflwyno cais Rhyddid Gwybodaeth drwy gyfryngau cymdeithasol yna efallai y byddwn yn gofyn am gyfeiriad e-bost er mwyn i ni ymateb.

### 12. Y cyfnod cyn etholiad neu 'purdah'

12.1 Mae'r cyfyngiadau ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn y cyfnod cyn etholiadol yn ymwneud â staff SCHTh yn yr ystyr eu bod nhw i gyd wedi cael eu cyflogi ar sail cyfyngder gwleidyddol. Bydd y staff yn dilyn y canllawiau a geir yn y Polisi Cyn Etholiad.

12.2 Yn ystod y cyfnod cyn etholiad - lleol, cyffredinol neu Ewropeaidd - mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydym yn gwneud unrhyw beth nac yn dweud unrhyw beth fyddai'n gallu cael ei ddehongli fel ein bod yn cefnogi plaid wleidyddol neu unigolyn. Byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol ond efallai y bydd rhaid i ni ddileu ymatebion os ydynt yn rhy wleidyddol er mwyn i ni gydymffurfio a'r rheolau cyfreithiol sydd raid i ni eu diwallu.

12.3 Defnydd staff SCHTh o gyfryngau digidol a chymdeithasol.

Pan fydd y staff yn defnyddio cyfryngau digidol neu gymdeithasol **yn enw SCHTh** neu'n cymryd rhan mewn gweithgaredd ar ran y Comisiynydd, byddant yn:

- cydymffurfio â'r rheolau a nodwyd uchod
- atal rhag defnyddio'r cyfrwng at ddibenion personol
- cynrychioli barn a pholisïau'r Comisiynydd



## Polisiâu a Gweithdrefnau / Policies and Procedures

- cael caniatâd cyn cymryd rhan mewn deialog ddigidol fyddai'n gallu bod yn gynhennus neu'n sensitif neu a fyddai'n gallu cael effaith anffafriol ar enw da'r Comisiynydd

12.4 Pan fydd y staff yn defnyddio cyfryngau digidol neu gymdeithasol at ddiben **personol**, byddant yn:

- atal rhag gwneud sylwadau gwleidyddol
- atal rhag gwneud unrhyw sylw am y Comisiynydd, neu ei benderfyniadau, gweithgareddau neu bolisi fyddai'n cael effaith anffafriol ar enw da'r Comisiynydd neu SCHTh

### 13 **Monitro**

13.1 Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu gan y Prif Weithredwr bob pedair blynedd.